

# PERTHYN

Mawrth 2025

Rhifyn 334



**Dydd Gweddi'r Byd, 7 Mawrth 2025**

**'Rwyf wedi eich gwneud yn rhyfeddol.'**  
Paratowyd y gwasanaeth gan Chwiorydd Ynysoedd Cook

# Cyfarchion

Fe ges fy ordeinio gan ddau flaenor, ffaith sydd wedi bod yn destun rhyfeddod i ambell glerigwr dros y blynyddoedd, yn enwedig y rhai o draddodiad Anglicanaidd. Gadewch i mi esbonio! Mater i'r Gymdeithasfa yw ordeiniad gweinidog Presbyteraidd ac nid i'r eglwys leol, ac felly Llywydd y Gymdeithasfa sy'n cyflawni'r weithred gyda Llywydd y Gymanfa Gyffredinol hefyd yn bresennol ac yn atgoffa rhywun bod y tair Cymdeithasfa yn un corff. Llywydd Cymdeithasfa'r Gogledd yn 1992 oedd Dr Gwyn Rees Jones, Manceinion a Llywydd y Gymanfa Gyffredinol oedd Dr Arthur Hughes, dau flaenor a dau feddyg. Noson ddwys ac arbennig oedd y noson honno, a thrist meddwl bod dau o'r tri ohonom a ordeiniwyd, bellach wedi ein gadael. Fe fyddai'n wir dweud bod y weithred honno'n un ddwys am sawl rheswm – a dim yn fwy na dealltwriaeth rhywun o waith a dylanwad yr Ysbryd Glân. Ond roedd yna ryw beth arall hefyd: presenoldeb teulu a ffrindiau, cynulleidfa orlawn a hefyd bresenoldeb y ddau oedd yn cyfranogi yn y weithred, gan gynnwys y Llywyddion – Dr Gwyn Rees Jones, un o flaenoriaid Oaker Avenue, Manceinion, fu'n Anesthetydd am flynyddoedd yn un o ysbytai'r ddinas honno, a'r Dr Arthur Hughes, llawfeddyg, a wasanaethodd yn y maes cenhadol yn India am ddeugain mlynedd. Dyma ddau gawr a braint oedd cael eu hadnabod a chael dweud mai dyma'r ddau fu'n gyfrifol am fy ordeiniad. Dau fu'n ffyddlon i'r alwad i ddilyn Iesu a dau fu'n ffyddlon i achosion a gwaith Cristnogol mewn gwahanol lefydd yn y byd.

Mae gen i gof byw o deithio rhwng Auckland a Paihia ar Ynys y Gogledd, Seland Newydd a hynny ar fws. Fe'n hysbyswyd ar ddechrau'r daith y byddai'r bws yn aros mewn dau le er mwyn i'r teithwyr gael paned ac un o'r llefydd hynny oedd Brynderwyn. A dyna ddigwyddodd, a'r gyrrwr yn gwneud sylw pryfoclyd bod Cymro wedi bod yno o'm blaen! Gwlad fach

yw Seland Newydd, a'i chyfraniad gwyddonol, llenyddol a chymdeithasol yn eang.

Mae yna Gymry wedi bod ym mhobman, wrth gwrs, ac wedi gadael eu hôl ar y byd ac mae yna Gymry o hyd yn arloesi ac yn cyfrannu i'n heddiw a'n hyfory. Rhan o'r etifeddiaeth yma yw Cristnogaeth ac ni allwn ddechrau mesur cyfoeth y cyfraniad. Meddyliwch am y Dr Arthur Hughes yn gadael dyfodol disglair ym myd meddygaeth ac yn treulio deugain mlynedd yn gwasanaethu pobl Shillong, gogledd India, a'r pentrefi cyfagos. Gŵr a alwyd yn 'Schweitzer Assam' yn torri tir newydd mewn nifer o feysydd meddygol gan gynnwys 'Caesarean section' heb wrthfotigau. Chwiliwch ei enw ar y we. A hyn er bod rhai haneswyr yn llwyr ddiystyru cyfraniad Cristnogaeth!

Beth bynnag am hynny, y mae mis Mawrth, ac yn enwedig Mawrth y cyntaf, yn dynodi dydd a mis dathlu ein nawddsant, Dewi. Wrth wneud hynny byddwn yn ymhyfrydu yn ein hiaith a'n diwylliant fel cenedl, yn dathlu cyfraniad y Cymry i fywyd y byd ac yn ymrwymo i bresennol a dyfodol y cyfan. Mae angen inni fod yn effro i'r heriau sy'n ein hwynebu heddiw a cheisio ffyrdd fydd yn gwarchod ac yn ymestyn yr hyn sy'n ein gwneud ni yr hyn ydym ni! Ac yng nghanol y cyfan, fe fyddwn yn gweddïo:

O deued dydd pan fo awelon Duw  
yn chwythu eto dros ein herwau gwyw,  
a'r crindir cras dan ras cawodydd nef  
yn erddi Crist, yn ffrwythlon iddo ef,  
a'n heniaith fwyn â gorfoleddus hoen  
yn seinio fry haeddiannau'r addfwyn Oen.



Lewis Valentine, 1893–1986

Dydd Gŵyl Ddewi Hapus i chi i gyd!

Eifion

# Newyddion Ebeneser



## Cofion . . .

Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau at ein haelodau a'n cyfeillion yn Ebeneser.

Anfonwn ein cofion at y rhai sy'n derbyn gofal yn eu cartrefi ac sy'n methu ymuno yn y gwasanaethau. Rydym yn cofio'n gynnes iawn atoch.

## Gwasanaethau

2 Mawrth – Gwasanaeth Cymun

16 Mawrth – Gwasanaeth

Bydd y gwasanaethau o dan arweiniad y Gweinidog, y Parch Eifion Roberts.

*I'r rhai sydd heb fod yn yr oedfaon yn Ebeneser, beth am ymuno ambell Sul? Mae bob amser groeso cynnes yn eich disgwyl.*



Golygyddion y rhifyn hwn yw Gwerfyl Pierce Jones a Menai Lloyd Williams. Diolch hefyd i bawb sydd wedi anfon cyfraniadau i'r rhifyn hwn, yn lluniau ac adroddiadau.

Anfonwch eich cyfraniadau ar gyfer rhifyn Ebrill at Gwerfyl ([gwerfylvpj@googlemail.com](mailto:gwerfylvpj@googlemail.com)) neu Menai ([menailwyd@googlemail.com](mailto:menailwyd@googlemail.com)) erbyn **dydd Gwener, 17 Mawrth 2025**, yn ddi-ffael, os gwelwch yn dda.

# Newyddion Morfa

Anfonwn ein cofion at ein haelodau sy'n derbyn gofal mewn cartrefi preswyl neu yn eu cartrefi eu hunain.

## ***Cydymdeimlo . . .***

Cydymdeimlwn â Terry a Wendy Jones ar farwolaeth brawd Terry, Gwynda, yng Nghartref Cysgod y Coed.

## ***Dymuniadau Gorau***

Dymunwn yn dda i Mrs Ann Davies, Llwyn Afallen sydd wedi symud i fyw i Abertawe i fod yn agos at y teulu. Anfonwn ein cofion ati.

## ***Llongyfarchiadau***

Llongyfarchiadau i Jeremy Turner sydd wedi ei ddewis yn Dywysydd Parêd Gŵyl Ddewi eleni ar sail ei gyfraniad nodedig i fywyd Cymraeg y dref.

## ***Dathlu***

Llongyfarchiadau 80 oed i Shelagh Jones ar 15 Chwefror ac i Gwynfor Jones ar 24 Mawrth. Mwynhewch y dathlu!



# Cinio Bara a Chaws er budd Cymorth Cristnogol



Bydd y cinio Bara a Chaws nesaf **ynghapel y Morfa**,  
**ddydd Llun, 3 Mawth**, rhwng 12.00 a 1.30pm.

Byddai'n braf gweld nifer o aelodau'r Morfa yn y Ffestri.

**Croeso cynnes i bawb – Dewch i gefnogi!**

---

## Cylch Gweddi a Choffi bore dydd Mawrth

Mae'r Cylch Gweddi a Choffi sy'n cyfarfod bob bore Mawrth yn cyfarfod yn y Ffestri (10.30) ac ar Zoom (11.00) am yn ail wythnos.

---

## Astudiaeth Ffydd a Phaned – ar ddyddiau Gwener am 2 o'r gloch ar Zoom

Mae'r Astudiaethau Ffydd a Phaned yn cyfarfod ar Zoom bob prynhawn Gwener am 2 o'r gloch.

Croeso cynnes i bawb. Ceir manylion am y ddau gyfarfod gan Eifion.

# ETHOL BLAENORIAID NEWYDD

Bore Sul, 6 Ebrill

Fel y gwyddoch, rydym fel aelodau wedi pleidleisio i symud ymlaen i ethol blaenoriaid newydd yn sgil nifer o golledion dros y blynyddoedd diwethaf.

Y mae'n bwysig nodi nad oes unrhyw gyfyngiad o ran y nifer y gellwch eu henwebu, ac mae croeso i chi wneud rhestr ymlaen llaw a dod â'r darn papur gyda chi i'r capel. Bydd papur a phensil ar gael y bore hwnnw hefyd.

Cofiwch mai dim ond cyflawn aelodau o Gapel y Morfa sydd â'r hawl i gymryd rhan yn y bleidlais ac yn yr un modd mae'n rhaid i'r rhai a enwebir fod yn gyflawn aelodau.

Bydd cynrychiolwyr o'r Henaduriaeth yn bresennol yn yr oedfa i arwain y broses yn unol â'r rheolau. **Rhaid cael mwy na hanner y pleidleisiau er mwyn cael eich ethol yn flaenor.**

Noder hefyd na wneir unrhyw gyhoeddiad ar ddiwedd yr oedfa. Penderfyniad y blaenoriaid yw na ddylid cyhoeddi'r enwau hyd nes y bydd y Gweinidog wedi cael gair â phob un yn unigol a sicrhau eu cydsyniad.

---

## CROESO CYNNES . . .

COFIWCH am y **CROESO CYNNES** (Paned, Cawl a Chymdeithas) yn Ffestri'r Morfa bob dydd Mercher o 11 tan 2 o'r gloch.

Diolch yn fawr i bawb sy'n cynorthwyo ac yn croesawu.

Mae croeso cynnes i bawb.

# Dyddiadau i'w cofio . . .

## Cymdeithas y Morfa

Nos Lun, **10 Mawrth**, am 7.00 o'r gloch yn y Ffestri  
Siaradwr: **Howard Jones** – Fy Ngyrfa Dramor

---

Nos Lun, **24 Mawrth**, am 7.00 o'r gloch  
yn y Ffestri  
Siaradwr: **Dr Bleddyn Huws** – Casglu  
Holl Gerddi T. H. Parry-Williams

Croeso cynnes i bawb.



## Y Gymdeithas – 20 Ionawr 2025

### Ymweld â'r Llyfrgell Genedlaethol

Trip allan yn y prynhawn oedd ein cyfarfod ar 20 Ionawr, sef ymweliad â'r Llyfrgell Genedlaethol. Fe'n tywyswyd ni i Ystafell Ddarllen y De, a chyfarchodd Robin, y cadeirydd, bawb, gan dynnu ein sylw at harddwch bensaernïol yr adeilad ei hun, sydd mor addas i sefydliad cenedlaethol. Yna dywedodd (wrth sefyll o flaen sgrîn deledu anferth) gymaint roedd byd y Llyfrgell wedi newid ers ei gyfnod o ar y staff, bron i ddeugain mlynedd yn ôl. Bryd hynny, papur, memrwn, inc, paent a phensil oedd pob dim!

Roedd dau gyflwyniad wedi cael eu paratoi i ni, a Dafydd Tudur, Pennaeth Gwasanaethau Digidol, a'n hanerchodd gyntaf, drwy ddangos gymaint mae'r datblygiad technoleg, digideiddio a'r rhyngrwyd yn enwedig, wedi trawsnewid y byd archifo, gan ledu argaeledd casgliadau ac archifau i'r cyhoedd.



Fel enghraifft, roedd wedi tynnu ynghyd hanes arbennig un unigolyn o gyfnod y Rhyfel Mawr, sef John Emrys Ladd, o Aberteifi. Mae enw Ladd wedi'i gofnodi yn Llyfr Cofio Cenedlaethol Cymru, lle rhestrir enwau 35,000 o filwyr o Gymru ynghyd ag aelodau o gatrodau Cymreig, a gollodd eu bywydau yn y Rhyfel Mawr. Yng Nghaerdydd y mae'r Llyfr, ond mae'r tudalennau i gyd wedi'u digideiddio erbyn hyn, ac felly gellir chwilio'r cofnodion ar-lein. Yna drwy groesgyfeirio â chofnodion tribiwnlysoedd y cyfnod (sydd hefyd wedi'u digideiddio) a gynhaliwyd i glywed achosion dynion oedd yn ceisio cael eu heithrio rhag consgripsiwn milwrol, cafwyd bod achos James Ladd wedi'i wrthod. Rhaid oedd iddo fynd, dim ond i gael ei ladd yn 1917. Roedd cofnodion Cyfrifiad 1921 (bellach ar-lein hefyd) yn dangos bod ei weddw a'i blant yn dal i fyw yn ardal Aberteifi, a bod un plentyn wedi'i eni ar ôl i Ladd gael ei ladd, manylyn ingol, a meddwl bod ei wraig yn disgwyl wrth iddo fynd i'r rhyfel... Yn wir, dangosodd Dafydd lun o James Ladd a'i deulu i ni a dynnwyd cyn iddo fynd, ac ochr-yn-ochr â'r cwbl o'r wybodaeth o'r ffynonellau digidol hyn, datgelwyd hanes dirdynol iawn, wrth ddeall realiti'r sefyllfa ar lefel mor bersonol. Ond, efallai yn fwy dirdynol byth, fel dywedodd Dafydd, oedd mai un hanes allan o filoedd tebyg oedd hanes James Emrys Ladd.

Er hynny oll, am ryw reswn, nid yw enw gweddw James Ladd yn ymddangos yn Neiseb Heddwch Menywod Cymru. Ym 1923, penderfynodd grŵp o ferched o Gymru ymgymryd ag ymgyrch dros heddwch. Yng nghynhadledd Undeb Cynghrair y Cenedloedd Cymru yng Ngholeg Prifysgol Aberystwyth, lanswyd ymgyrch i sicrhau bod menywod UDA yn clywed lleisiau menywod Cymru i gyd-weithio dros fyd heb ryfel. Arwyddwyd deiseb i'r perwyl felly gan 390,296 o ferched Cymru. Yn ôl y sôn credir ei bod yn 7 milltir o hyd, ac fe aethpwyd â hi i'r UDA mewn cist dderw gan Annie Hughes-Griffiths, Mary Ellis, Elined Prys, a Gladys Thomas, lle y'i cyflwynwyd wedyn i ferched America gan ddirprwyaeth heddwch Cymru.

Cadwyd y Ddeiseb a'i harddangos gan Amgueddfa Genedlaethol Hanes America, yn Washington DC, ond ar 5 Ebrill 2023 cafodd y Ddeiseb ei dychwelyd i Gymru, er mwyn nodi canmlwyddiant yr

ymdrech gwrth-ryfel Gymreig a arweiniwyd gan fenywod. Mae hithau, fel yr archifau a grybwyllwyd yn barod, yn cael ei digideiddio, ac mae modd chwilio rhai o'r cofnodion erbyn hyn ar-lein.

Yn yr ail gyflwyniad wedyn, esboniodd Einion Gruffudd, Rheolwr Prosiect yr Archif Ddarlledu, sut mae'r dechnoleg digideiddio wedi galluogi archifo oriau o raglenni teledu Cymraeg a Chymreig, gan holl gyrff darlledu Cymru. Difyr oedd gweld clipiau o raglenni y gorffennol, wrth i Einion eu chwilio'n hawdd ar y sgrîn efo'r dechnoleg. Gwelsom lawer o ffigurau enwog Cymru, eisteddfodau, trefi a bröydd adnabyddus, a hyd yn oed wynebau lleol cyfarwydd. Difyr oedd gweld cyffro'r aelodau wrth weld wynebau teulu neu ffrindiau o'r cyfnod! Gwelsom un clip arbennig, o **Dechrau Canu, Dechrau Canmol** o Gapel y Morfa yn 2016, a nifer ohonom yn gwylio'n hunain yn canu allan yn braf ar y sgrîn, ond deng mlynedd yn iau! Cafodd Einion hyd i ddau glip arbennig i gloi, un (ar gais Robin) o Nansi Richards 'Telynores Maldwyn' a'i theires, a'r llall (ar gais Shelagh) o Eisteddfod Genedlaethol Glyn Ebwy 1958.

I orffen ein hymweliad, fe'n gollyngwyd yn rhydd i grwydro'r arddangosfa yng Nghanolfan yr Archif. I fwynhau'r profiad yn iawn, roedd rhaid gwisgo clustffonau, ac wrth symud



o gwmpas y sgriniau gwahanol, fe newidiai'r traciau sain yn hudol i ffitio'r rhaglenni priodol.

Roedd pawb yn gytûn i ni gael ymweliad hynod o ddiddorol a difyr, ond ar yr un pryd yn addysgiadol a dadlennol, oedd wedi agor ein llygaid i'r posibilïadau y mae technoleg fodern yr oes yn gallu eu creu i ni heddiw. Diolchodd Robin i Dafydd ac Einion ac i'r Llyfrgell am brofiad ac ymweliad mor wych.

## Y Gymdeithas – 3 Chwefror 2025

Nos Lun, 3 Chwefror, Hywel Lloyd oedd yn gyfrifol am y defosiwn ac yn addas iawn cafwyd darlleniad allan o Mathew 5 a'r Bregeth ar y Mynydd.

Croesawyd Sara a John gan ein Cadeirydd, Robin, i gyflwyno eu mynyddoedd nhw! Cyfrol Dewi Prysor – *100 Cymru – Y Mynyddoedd a Fi* oedd sbardun y cyfan – a phen blwydd arbennig Sara yn 2023. Dechrau eu taith oedd cerdded i gopa'r Wyddfa – yng nghwmni Clwb Mynydda Cymru! Dim ond un waith y digwyddodd hynny!

Cafwyd taith drwy gyfrwng lluniau arbennig a straeon a hanesion difyr am eu hanturiaethau. Roedd Sara a John wedi crwydro sawl ardal yng Nghymru a hynny ym mhob tywydd. Cyfarfod ambell un ar eu teithiau a chlywed ambell i sylw megis 'They're all the same' am y mynyddoedd a hynny'n dangos diffyg dirnadaeth affwysol o ogoniant y golygyfeydd!

Pwysleisiwyd gan Sara a John ei fod yn bwysig cael nod mewn bywyd a chyrraedd ato a wnaethpwyd yn eu teithio dros y flwyddyn arbennig yn hanes Sara. Gwelwyd harddwch Cymru ar ei orau a hynny drwy gyfrwng lluniau a hanesion difyr gan y ddau. Efallai y cawn hanes eu taith nesaf i'r Glyder Fach – cyn pen blwydd arbennig John! Dyma flas o rai o'r golygyfeydd:



*Ar y Picws Du uwchben Llyn y Fan Fach*



*Sara'n ymlacio ar Fan y Big*



*Ar Grib Nantlle*

*O flaen olion capel yng  
Nghwmorthin  
uwchben Tanygrisiau*



# Y Clwb Sul (Ysgol Sul)


## Teithio gyda Iesu

Yn ystod mis Chwefror rydym wedi parhau â'r thema *Teithio gyda Iesu*. Cyflwynwyd stori Mathew, y casglwr trethi amhoblogaidd a ymatebodd i alwad yr Iesu i'w ddilyn ef. Roedd Iesu yn cynnig cyfle newydd a maddeuant iddo.

Wrth i'r Arglwydd Iesu ymweld â chartrefi a phentrefi ar ei daith, daeth rhai ato i gael iachâd a gobaith am fywyd newydd. Cyflwynwyd storïau am y pedwar ffrind yn gollwng y claf drwy'r to at Iesu; am Bartimeus y dyn dall a gafodd ei olwg wedi ei adfer iddo; a Saceus, y casglwr trethi unig y sylwodd Iesu arno'n cuddio yn y goeden gan ddweud:

*'Tyrd i lawr Saceus, rwy'n dod i dy dŷ di heddiw'*

Mae'r lluniau'n dangos amrywiaeth y gweithgareddau a'r crefftau oedd yn gysylltiedig â'r storïau.





## *The Art of Losing*

M. Wynn Thomas  
Ruth Jên Evans  
Pris £12.99


Llyfr clawr caled, hardd.  
Anrheg delfrydol

Cyhoeddi: Calon  
ISBN: 9781837600236

Yn y gyfrol hon, ceir casgliad o gerddi yn archwilio sut mae'r beirdd wedi mynegi'r emosiynau a'r teimladau eang

ac amrywiol yn archwilio'r profiad dynol o alar. Ceir pedwar ar hugain o gerddi yn amrywio o'r cyfnod canoloesol hyd heddiw gan gynnig arweiniad i'r rhai sy'n profi galar a cholled.

Mae'r gyfrol hon yn rhan o gyfres boblogaidd gan M. Wynn Thomas – *The History of Wales in Twelve Poems, A Map of Love: Twelve Welsh Poems of romance, desire and devotion a Poems of the Soul: Twelve of the Great Hymns of Wales*. Mae darluniau gwreiddiol gan Ruth Jên drwy'r gyfrol sy'n plethu â mewnwelediad yr Athro M. Wynn Thomas.



---

COFIWCH ymweld â gwefan Capel y Morfa i gael y newyddion diweddaraf – ac mae croeso i chi gyfrannu!  
[www.capelymorfa.cymru](http://www.capelymorfa.cymru)

COFIWCH hefyd ddilyn cyfrif Capel y Morfa ar Facebook

# Parêd Gŵyl Ddewi 2025

Un o hoelion wyth Aberystwyth a byd y ddrama Gymraeg i bobl ifanc yng Nghymru, **Jeremy Turner**, fydd Tywysydd Parêd Gŵyl Ddewi Aberystwyth a gynhelir **dydd Sadwrn, 1 Mawrth 2025**. Mae'r Parêd yn cydnabod ei



gyfraniad i fywyd diwylliannol Aberystwyth, yn arbennig fel tref groesawgar a rhyngwladol yn sgil sefydlu Gŵyl Agor Drysau – gŵyl ddrama ryngwladol i bobl ifanc sy'n denu cwmnïau drama o Ewrop a thu hwnt.

Dewiswyd 'Tywysydd' ar gyfer pob gorymdaith Gŵyl Ddewi ers ei sefydlu yn 2013 a bydd yn arwain y Parêd drwy dref Aberystwyth. Mae'n arwydd o ddiolch a gwerthfawrogiad cymuned Aberystwyth i berson neu bersonau lleol sydd wedi gwneud cyfraniad pwysig i iaith a diwylliant Cymru.

Llongyfarchiadau Jeremy a phob hwyl ar y tywys!





# CEFNOGI YSGOL SUMUD GAZA



Mae Cyfeillion Palesteina Gorllewin Cymru wedi cefnogi pobl ar y Lan Orllewinol ers deng mlynedd, ac o ganlyniad gofynnwyd i ni gefnogi sefydlu ysgol babell i blant sy'n ffoaduriaid yn Deir Al – Balah yng nghanol Gaza. Mae hon yn ardal gyda dros 300 o deuluoedd yn byw mewn

pebyll. Mae'r plant wedi cael eu dadleoli dro ar ôl tro ac nid ydynt yn gallu mynychu'r ysgol. Gyda chymorth ein grŵp, mae gweithwyr lleol wedi sefydlu ysgol sy'n darparu addysg, cwrsela a bwyd i dros 200 o blant 5-12 oed am 3 diwrnod yr wythnos. Gair Arabeg yw Sumud, sy'n arbennig i Balesteiniaid, sy'n ymgorffori diysgogrwydd a gwytnwch.

## HELPA NI I'W HELPU NHW

[www.westwalesfriendsofpalestine.wordpress.com/news](http://www.westwalesfriendsofpalestine.wordpress.com/news)

Mae bocs casglu yng nghyntedd Capel y Morfa neu gellir rhoi i:  
Triodos Bank, WWFOP, SC 16-58-10, Acct No 20647492, Cyfeiriad:  
Sumud School Appeal



# Pobloedd y Byd

Derbyn, O Arglwydd, ein heiriolaeth ar ran dy fyd, a thrugarha wrth bawb sydd mewn angen am ddiddanwch a chymorth dy gariad.

Pobl anghenus y byd: y newynog, y tlodion, y caethion a'r gorthrymedig sydd heb wybod am gariad Duw a heb brofi cariad cyd-ddyn.

Pobl anhapus y byd: y galarus, yr unig, yr amddifad a'r diymgeledd a'r rhai sydd heb neb i'w caru.

Pobl anghyfrifol y byd: y rhai sy'n gorthrymu eraill, sy'n malio dim am adfyd eu cyd-ddynion ac sydd heb barch at Dduw na dyn.

Pobl addfwyn y byd: y rhai sy'n tystio mewn gair a gweithred i ffordd dra rhagorol cariad Crist.

Arglwydd, dysg ni oll i edrych ar y byd a'i breswylwyr yng ngoleuni dy gariad di yn ein holl ymwneud â'n gilydd.

Gwna ni'n eofn ac yn ddewr i weithredu dy gariad, heb ofni pwerau'r byd na dirmyg a gwawd dynion.

Amen

Arglwydd Iesu,  
cymer ein dwylo, ein genau,  
ein meddyliau a'n calonnau,  
a defnyddia hwy i gyflawni dy waith,  
i siarad drosot,  
i feddwl dy feddyliau,  
ac i estyn dy gariad i'r byd.



Amen

Elfed ap Nefydd Roberts allan o *Amser i Dduw*,  
Gol. Elfed ap Nefydd Roberts

# SULIAU MAWRTH 2025

**Blaenor y Mis:** Menai Lloyd Williams

- 2 Mawrth:** Oedfa'r Parêd – Morlan
- 9 Mawrth:** Beti Griffiths
- 16 Mawrth:** Eifion Roberts (Cymun)
- 23 Mawrth:** Dr Gwyn Davies, Penparcau
- 30 Mawrth:** Dr Geraint Tudur



Mae'r holl oedfaon uchod am 10.00 o'r gloch, ac os hoffech dderbyn y ddolen i ymuno ag unrhyw un ohonynt ar Zoom, cysylltwch ag Eifion ar [eifionroberts095@btinternet.com](mailto:eifionroberts095@btinternet.com)

## Blodau Mawrth 2025

- 2 Mawrth:** Eleri Davies a Mair Griffiths
- 9 Mawrth:** Gwerfyl Pierce Jones – Cyfraniad at elusen
- 16 Mawrth:** Janet Sutton ac Anna Williams
- 23 Mawrth:** Beti a John Roberts
- 30 Mawrth:**



## Parêd Gŵyl Ddewi

**Bore Sul 2 Mawrth am 10 o'r gloch**

**Gwasanaeth Gŵyl Ddewi Unedig**

i eglwysi Cymraeg y dref yn y Morlan.

Anerchiad i'r plant gan y Parchedig Eifion Roberts

Pregethir gan yr Athro Jamie Medhurst



# DYDD GWEDDI'R BYD

MUDIAD ECIWMENAIDD BYD-EANG YN CAEL EI ARWAIN GAN FENYWOD



**DYDD GWENER  
7 MAWRTH 2025**

**Rwyf wedi eich gwneud yn  
rhyfeddol**

PARATOWYD GAN FERCHED CHRISTNOGOL YNYSOEDD COOK

[wwdp.org.uk](http://wwdp.org.uk)